# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 3

RHYDDHAD RHAG TRETH

### 31 Gwaith adfer safle: amrywio cymeradwyaeth

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo ACC wedi cymeradwyo cyflawni gwaith adfer ar safle tirlenwi awdurdodedig.

(2) Caiff gweithredwr y safle wneud cais ysgrifenedig i ACC amrywio'r gymeradwyaeth; ac mae adran 30 yn gymwys i gais i amrywio fel y mae'n gymwys i gais am gymeradwyaeth.

(3) Caiff ACC amrywio'r gymeradwyaeth ar ei gymhelliad ei hun os yw wedi ei fodloni bod yr amrywiad yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y gymeradwyaeth ond yn ymwneud â gwaith adfer sy'n ofynnol o dan un o amodau trwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle.

(4) Os yw ACC yn amrywio cymeradwyaeth ar ei gymhelliad ei hun, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad sy'n nodi manylion yr amrywiad i weithredwr y safle tirlenwi awdurdodedig.

(5) Nid yw amrywio cymeradwyaeth yn effeithio ar gymhwysiad adran 29 i waith adfer a gyflawnwyd yn unol â'r gymeradwyaeth cyn ei hamrywio.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 31. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 31 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 31 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 31.